COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mawrth, 13 Mawrth 2001
**Amser:** 9.00am
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:** John Marek, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, Y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
John Lloyd, Cyn Glerc y Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Ysgrifennydd Preifat y Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4)

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb Marie Knox.

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC63-01 (terfynol)**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion terfynol i'r Pwyllgor. Gan nad oedd sylwadau pellach byddant yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**BC72-01 (drafft)**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion drafft i'r Pwyllgor. Awgrymwyd rhai newidiadau a fydd yn cael eu cynnwys yn y fersiwn terfynol a gaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion yn codi (BC72-01)

3.1 **Paragraff 3.1** - Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC77-01 ar ddewisiadau ar gyfer ad-drefnu'r Cyfarfod Llawn ar ddiwrnod pleidleisio'r Etholiad Cyffredinol. Cytunodd y Pwyllgor y byddai Cyfarfod Llawn ar ddydd Mercher yn well. Bydd Swyddfa'r Llywydd yn gwneud trefniadau ar gyfer naill ai 9 neu 23 Mai. **Gweithredu: Marie Knox**

3.2 **Paragraff 3.3** - Dywedodd y Trefnydd bod rhai o Weinidogion y Cabinet eisoes yn darparu gwybodaeth i'w pwyllgorau pwnc ynghylch is-ddeddfwriaeth sydd i ddod. Fodd bynnag, bydd y Cabinet yn gwneud datganiad i'r Cyfarfod Llawn ar y mater hwn yn y dyfodol agos.

3.3 **Paragraff 3.8** - Dywedodd David Lambert y bydd yn trafod papur ar gyhoeddi is-ddeddfwriaeth y Cynulliad gyda Winston Rodick ddydd Iau. Bydd yr eitem hon yn aros ar agenda'r Pwyllgor Busnes. **Gweithredu: David Lambert**

3.4 **Paragraff 7.7 -** Dywedodd Marion Stapleton bod trefniadau ar y gweill ar gyfer darparu eglurhad i reolwyr busnes ynghylch y swyddogaethau sy'n cael eu trosglwyddo i Brif Weinidog Cymru yn sgil y gorchmynion trosglwyddo swyddogaethau sydd i ddod. **Gweithredu: Marion Stapleton**

## 4. Is-ddeddfwriaeth

4.1 Gofynnodd Jocelyn Davies a ddylid ail ddechrau'r Cyfarfodydd Busnes fore Mercher yn enwedig pan fydd llawer o is-ddeddfwriaeth yn cael ei ystyried. Dywedodd Jocelyn Davies ei bod hi hefyd yn bryderus bod y Pwyllgor Busnes yn ystyried ceisiadau gan y Weithrediaeth yn seiliedig ar gyngor y Weithrediaeth yn unig. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y dylai'r Aelodau fod yn gallu rhoi gwybod i'w Rheolwyr Busnes ynghylch unrhyw bryderon yn ymwneud â deddfwriaeth sydd i ddod ar ôl iddo gael ei osod ar y fewnrwyd ond cyn i'r Pwyllgor Busnes dderbyn ei bapurau. Roedd William Graham yn teimlo bod digon o amser ganddo i ymgynghori â'i grŵp ef cyn cyfarfod y Pwyllgor ar ddydd Mawrth. Dywedodd y Trefnydd ei fod yn bosibl y byddai angen ystyried ail ddechrau'r cyfarfod fore Mercher eto yn y dyfodol oherwydd bod nifer fawr o orchmynion wedi eu cynnig cyn toriad yr haf.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr i gadw golwg ar y sefyllfa**

### Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001

4.2 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC74-01 oedd yn cynnwys cyngor oddi wrth Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Safonol.
**Yn dilyn hyn, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

### Rheoliadau Henebion (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) (Ffurflenni a Manylion Cymraeg) 2001

4.3 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC75-01 oedd yn cynnwys cyngor oddi wrth Sue Essex, Gweinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Gyflymach.

**Yn dilyn hyn, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**Gorchymyn Ardal Pysgodfeydd Môr De Cymru (Amrywio) (Wales) 2001**

4.4 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC78-01 oedd yn cynnwys cyngor oddi wrth Carwyn Jones, Gweinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Gyflymach yn dilyn cyngor gan Nerys Arch ynghylch y gwrthddywediad ymddangosol yn y Memorandwm Eglurhaol. Os nad oedd y Rheolwyr Busnes yn fodlon ar yr eglurhad, byddai'r Gorchymyn y dilyn y weithdrefn Safonol.
**Yn dilyn hyn, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2001**

4.5 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC79-01 oedd yn cynnwys cyngor oddi wrth Edwina Hart, Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Safonol.
**Yn dilyn hyn, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Disgownt ar gyfer 2001/2002) (Cymru) 2001**

4.6 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC80-01 oedd yn cynnwys cyngor oddi wrth Edwina Hart, Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Gyflymach.
**Yn dilyn hyn, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2001**

4.7 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC81-01 oedd yn cynnwys cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Gyflymach.

**Yn dilyn hyn, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Cymru) 2001**

4.8 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC82-01 oedd yn cynnwys cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Gyflymach.
**Yn dilyn hyn, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio)(Cymru) 2001**

4.9 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC84-01 oedd yn cynnwys cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Gyflymach.
**Yn dilyn hyn, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2001**

4.10 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC85-01 oedd yn cynnwys cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Safonol.
**Yn dilyn hyn, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) a (Ffioedd Deintyddol) (Diwygio) (Cymru) 2001**

4.11 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC86-01 oedd yn cynnwys cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Safonol.

**Yn dilyn hyn, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**<u>Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2001</u>**

4.12 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC87-01 oedd yn cynnwys cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Gyflymach.
**Yn dilyn hyn, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**<u>Rheoliadau Cig (Hylendid ac Archwilio) (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2001</u>**

4.13 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC88-01 oedd yn cynnwys cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Safonol.
**Yn dilyn hyn, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

## <u>5. Cyngor ar Weithdrefnau'r Cynulliad</u>

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC83-01 ar gynigion ar gyfer cwestiynau llafar i'r Trefnydd. Dywedodd y Dirprwy Lywydd, yn amodol ar gytundeb y Rheolwyr Busnes ar y cynigion, y gallai'r newid i'r Rheolau Sefydlog gael ei lunio a'i ystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r anawsterau a amlinellwyd ym mharagraff 6 yn y papur, byddai angen i'r Cabinet ddarparu rhestr fanwl o gyfrifoldebau pob aelod o'r Cabinet er mwyn i'r Swyddfa Gyflwyno fod yn sicr at ba Weinidog y dylid cyfeirio cwestiynau. Dywedodd y Trefnydd y byddai angen i'r holl Aelodau fod yn ymwybodol oherwydd nad oedd ef yn atebol am unrhyw faes o dan a56(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru, pe byddai'r cynigion yn mynd yn eu blaenau, byddai ef yn ateb rhai cwestiynau sydd ar hyn o bryd yn cael eu hateb gan Brif Weinidog Cymru. Cytunwyd y byddai'r Rheolwyr Busnes yn ymgynghori â'u grwpiau ac y byddai Ysgrifenyddiaeth y Siambr yn cyflwyno diwygiad arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog. **Gweithredu: Y Rheolwyr Busnes ac Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## <u>6. Pwyllgorau</u>

6.1 Dim.

## <u>7. Busnes sydd ar y gweill</u>

**Busnes yr wythnos hon**

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC76-01 oedd yn cynnwys manylion y busnes a gytunwyd ar gyfer y Cynulliad ar gyfer yr wythnos. Nodwyd y byddai angen cynnig gweithdrefnol ar gyfer y ddadl ar yr "Assembly Members and Officials' (Salaries and Allowances etc) Determination 2001" oherwydd ei fod wedi ei osod fel Cynnig Heb Ddyddiad Trafod.

7.2 Nodwyd bod dau orchymyn wedi eu cyflwyno i'w trafod ddydd Iau 15 Mawrth ac nad oeddent wedi eu cynnwys ar y Datganiad Busnes a gytunwyd. Bydd caniatâd y Llywydd yn cael ei geisio i'w dwyn ymlaen trwy gyfrwng cynnig gweithdrefnol. Dywedodd y Trefnydd ei fod yn debyg y bydd datganiadau gan y Cabinet yn cael eu gwneud ar 15 Mawrth ar yr achosion o Glwy'r Traed a'r Genau ac ar unrhyw gynnydd gyda'r Cytundeb Partneriaeth.

7.3 Ystyriodd y Pwyllgor y datganiad busnes drafft (BC89-01). Dywedodd y Gweinidog y dylai'r gorchmynion drafft eraill gael eu hychwanegu at 27 a 29 Mawrth.

**Busnes arfaethedig ar gyfer wythnosau'n cychwyn 19 a 26 Mawrth a 2 Ebrill 2001**

7.4 Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd ar ei ddatganiad arfaethedig ynghylch trefnu busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn 19 a 26 Mawrth a 2 Ebrill oedd y dylai fynd yn ei flaen fel yr amlinellwyd yn y datganiad busnes drafft diwygiedig.

**8. Materion a gyfeiriwyd o'r cyfarfodydd llawn**

8.1 Dim

**9. Diwygiadau i'r Rheoliadau Sefydlog**

9.1 Dywedodd Marion Stapleton nad oedd y diwygiad arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer gweithdrefn Weithredol o fewn adran 3 Rheol Sefydlog 23 ar gymaint o frys ag yr oedd wedi meddwl yn wreiddiol. Roedd hi'n disgwyl y bydd Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol yn gallu darparu amodau'r diwygiad mewn da bryd i'r Aelodau eu hystyried os bydd angen.

**10. Penderfyniadau'r Llywydd**

10.1 Dim

**11. Unrhyw fater arall**

11.1 Mewn ymateb i gwestiwn gan Jocelyn Davies, dywedodd y Trefnydd bod Gweinidogion sydd ar ymweliadau swyddogol i etholaethau yn ceisio dilyn y drefn arferol o ran cwrteisi trwy roi gwybod i Aelodau'r etholaeth ymlaen llaw.

11.2 Dywedodd William Graham ei fod yn falch o weld bod y Trefnydd wedi pennu amser ar gyfer dadl ar y Papur Gwyn ar Iechyd Meddwl ar gyfer 3

Ebrill. Roedd yn gobeithio y byddai'r Trefnydd yn ystyried pennu dyddiad ar gyfer y pynciau eraill a restrwyd yn y cyfarfod ar 30 Ionawr (BC32-01) **sef**

- **Gweithredu concordatau**
- **Dyfodol ysgolion gwledig**
- **Ymateb y llywodraeth i restrau aros mewn ysbytai**

11.3 Cytunodd y Pwyllgor i ystyried opsiynau ar gyfer toriad Nadolig 2001 yn y cyfarfod wythnos nesaf.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**